awen Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Cultural Trust

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

CHWARTER 3

ADRODDIAD PERFFORMIAD

ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

2025–26

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgareddau a gyflawnwyd gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn ystod **Chwarter 3** 2025/26 i gefnogi Amcanion Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n cynnwys crynodeb o bob maes gwasanaeth, yn ogystal â rhai astudiaethau achos ac adborth cwsmeriaid sy'n helpu i ddangos effaith.

Crynodeb Maes Gwasanaeth:

LLYFRGELLOEDD

Cafodd ein llyfrgelloedd hanner tymor mis Hydref prysur iawn. Mewn partneriaeth â'r Ganolfan Eifftaidd yn Abertawe, fe wnaethom ddarparu cyfres o weithdai Mymïaid Eifftaidd y daeth llawer o deuluoedd iddynt. Fe wnaeth y rhai a gymerodd ran archwilio'r Hen Aifft, dysgu am fymieiddio, a hyd yn oed darganfod sut i chwarae'r gêm fwrdd Eifftaidd draddodiadol, Senet. Fe wnaeth pob llyfrgell gyflwyno arddangosfeydd llyfrau â thema i ategu'r gweithdai, ac roedd y casgliadau hyn yn arbennig o boblogaidd gyda benthycwyr.

Roedd Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr yn llwyddiannus o ran sicrhau prosiect partneriaeth â'r Reading Agency o'r enw Cosmic Explorers. Mae'r fenter hon yn annog plant ysgol i ddarganfod mwy am y gofod a chyfundrefn yr haul. Yn rhan o'r prosiect, derbyniodd y llyfrgell ddeunyddiau dysgu, llyfrau a chelfi cyfundrefn yr haul, sydd eisoes wedi cael eu defnyddio'n eang yn ystod ymweliadau ag ysgolion.

Mae'r Nadolig yn dal i fod yn uchafbwynt ar draws ein llyfrgelloedd, â rhaglen lawn o sesiynau Bownsio a Rhigwm yr ŵyl, gweithgareddau crefft a grwpiau darllen â thema. Cynhaliodd Llyfrgell y Pîl ei digwyddiad **Caneuon a Mins Peis** cymuned gyfan, yn cynnwys perfformiadau gan Gleemen Maesteg a standinau gan grefftwyr lleol. Daeth llawer i'r digwyddiadau ac roedd yn cynnwys ymweliadau gan Faer Pen-y-bont ar Ogwr, y Cynghorydd Huw David, a Chadeirydd Cyngor Cymuned y Pîl, y Cynghorydd Gary Chappell.

Cynhaliodd Llyfrgell Betws sesiynau **Paned gyda Phlismon** gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol, a defnyddiodd Cymoedd i'r Arfordir y llyfrgell i ddarparu digwyddiadau gwybodaeth gymunedol rheolaidd. Mae ein partneriaethau parhaus gyda Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw a Chyflogadwyedd yn sicrhau y gall trigolion gael gafael ar gymorth iechyd a chyflogaeth yn uniongyrchol o'u llyfrgell leol. Yn Llyfrgell Abercynffig, ceir ymweliadau wythnosol gan Te Teulu, grŵp o oedolion ag anableddau dysgu, sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol, gemau bwrdd, ac adeiladu jig-sos. Mae'r sesiynau hyn yn helpu i hybu cynhwysiant, hyder a rhyngweithio cymdeithasol mewn amgylchedd llyfrgell croesawgar.

WEITHDAI MYMÏAID EIFFTAIDD

NADOLIG YN LLYFRGELLOEDD AWEN

CANEUON A MINS PEIS

"Mae'r sesiynau crefft hyn yn anhygoel Diolch o galon. Maen nhw wir yn helpu fy iechyd meddwl ac yn ail-lenwi fy lefel hapusrwydd."

Cwsmer a gymerodd ran yn sesiynau Crefft y Nadolig yn llyfrgell Abercynffig

HELEN, PORTHCAWL

Mae Teimlo'n Dda am Oes yn fenter arobryn y mae Awen yn ei rhedeg mewn partneriaeth â Halo Leisure yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr, Canolfan Gymunedol Corneli ac ar-lein. Bwriedir y sesiynau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Ar ôl nofio neu weithgareddau corfforol ysgafn gyda Halo, mae staff o Lyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol gan gynnwys crefftau, cerddorion byw, posau, bingo, sesiynau gydag anifeiliaid cymorth emosiynol, gemau a chyfleoedd i hel atgofion, y cwbl â'r nod o annog sgwrs a chysylltiad.

"Ar hyn o bryd, rwy'n gofalu am fy mam oedrannus 89 mlwydd oed sydd wedi cael diagnosis o glefyd Alzheimer. Rwy'n byw gyda fy mam yn ei chartref ym Mhorthcawl am 5 diwrnod yr wythnos ac wedi bod yn gofalu amdani dros y 2 flynedd ddiwethaf ers marwolaeth fy nhad.

"Mae'n bwysig i mi i gadw fy mam yn weithgar yn feddyliol ac yn gorfforol. Cefais fy nghyflwyno i grŵp nofio Teimlo'n Dda am Oes gan Gymdeithas Alzheimer ym mis Hydref 2022 ac mae ein sesiynau prynhawn Mercher wedi dod yn rhan bwysig iawn o'n hwythnos.

"Mae'r caffi atgofion ar ôl y nofio yn fonws ychwanegol ac yn cael ei redeg gan Lyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr mewn ffordd ofalgar a chefnogol i ofalwyr a dioddefwyr. Mae gweithgareddau yn amrywio bob wythnos. Mae mam yn mwynhau jig-sos, posau chwilotair a bingo. Mae'r sesiynau crefft yn dda i Mam ac mae'r staff yn amyneddgar iawn wrth helpu i sicrhau canlyniad boddhaol.

"Mae canu bob amser yn boblogaidd a hefyd yr ymwelwyr niferus sy'n cael eu gwahodd i'r grŵp sy'n rhannu gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau i helpu pawb. Mae'r staff yn Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr yn trefnu'r ymweliadau hyn gyda'r grŵp mewn golwg a'r hyn a fyddai o fudd i ni i gyd. Rydym yn ddiolchgar iawn iddyn nhw am drefnu gweithgareddau difyr. "Mae staff Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael effaith mor gadarnnhaol i Mam ac i minnau. Mae'r anogaeth, y gefnogaeth a'r syniadau y maen nhw'n eu rhoi i ofalwyr a dioddefwyr dros y 18 mis diwethaf wedi bod yn hynod werthfawr. Maen nhw bob amser yn gwneud amser i sgwrsio, a chan fod un aelod o'r staff wedi cael profiad tebyg i mi, mae'n rhannu â mi ei ffyrdd o ymdopi â'r sefyllfa.

"Prynhawn Mercher yw uwchafbwynt ein hwythnos – diolch."

GWASANAETHAU ANABLEDD DYSGU: B-LEAF A WOOD-B

Fe wnaeth ein hyfforddeion yn B Leaf a Wood B barhau i ffynnu yn ystod y chwarter hwn, yn enwedig yn ystod cyfnod y Nadolig. Fe wnaeth B Leaf fwynhau blwyddyn lwyddiannus arall o werthu coed Nadolig, gan werthu'r cwbl am yr ail flwyddyn yn olynol, gan ddangos y gefnogaeth gymunedol gref i'r gwasanaeth hwn. Yn Wood B, gweithiodd hyfforddeion yn galed i gynhyrchu amrywiaeth o anrhegion pren o ansawdd uchel, gan gynnwys robiniaid coch, gonciaid a dynion eira, a werthwyd wedyn yn B Leaf. Cydnabuwyd eu crefftwaith yn ystod ymweliad rota â Wood-B gan y Cynghorydd Jane Gebbie, Dirprwy Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, y Cynghorydd Huw David, Maer, a'r Cynghorydd Eugene Capaross.

Cynhaliwyd ein **Noson Ddathlu Flynyddol** yn Neuadd y Dref Maesteg ym mis Hydref. Rhoddodd y digwyddiad hwn foment falch i hyfforddeion trwy gael eu cyflawniadau yn cael eu cydnabod yn ffurfiol wrth iddynt dderbyn eu tystysgrifau a'u gwobrau. Roeddem yn falch iawn o groesawu'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Lles, Sarah Murphy AS, a'r Dirprwy Brif Weinidog, Huw Irranca Davies AS, a threuliodd y ddau amser yn siarad â hyfforddeion a'u teuluoedd i ddeall yr effaith gadarnhaol y mae'r rhaglenni yn ei chael ar eu hyder, eu sgiliau a'u lles.

Mynychodd hyfforddeion o'r ddwy raglen ddangosiad ffilmiau It's My Shout yn Neuadd y Dref Maesteg. Fe wnaethant wylio wyth ffilm fer, gan gynnwys **Different Now** a **The Green Cottage**, y ddwy ohonynt wedi'u cefnogi gan Awen. Cafodd **Different Now** ei ffilmio ym Mhorthcawl yn ystod yr haf ac roedd yn cynnwys nifer o'n hyfforddeion a gymerodd ran fel ecstras. Darlledwyd y ffilmiau ar BBC Cymru a BBC iPlayer drwy gydol yr hydref, gan roi cyfle cyffrous i hyfforddeion brofi bywyd ar set ffilm broffesiynol a gweld y canlyniadau terfynol (a'u hunain) ar y sgrin.

Yn ystod hanner tymor mis Hydref, ymgymerodd sawl un o'n hyfforddeion â rolau gwirfoddol yn cefnogi **Llwybrau Pwmpen Calan Gaeaf** ym Mharc Gwledig Bryngarw. Gan weithio ochr yn ochr â chydweithwyr y parc, fe wnaethant helpu i gyflwyno'r rhaglen ac ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd. Fe wnaeth yr hyfforddeion gwir fwynhau mynd i mewn i gymeriad gyda gwisgoedd brawychus, gan gyfrannu at brofiad hwyliog a chofiadwy i ymwelwyr.

1. BLWYDDYN LWYDDIANUS ARALL AR GYFER GWERTHIANNAU COED NADOLIG
2. Y DANGOSIADAU *IT'S MY SHOUT* YN NEUADD Y DREF MAESTEG
3. EIN NOSWAITH O DDATHLU FLYNYDDOL
4. CYDNABOD CREFFTWRIAETH WOOD-B YN YSTOD YMWELIAD
5. CEFNOGI LLWYBRAU PWMPENNI CALAN GAEAF YM MHARC GWLEDIG BRYNGARW

IWAN, BRACLA

Mae Iwan wedi bod yn mynychu B-Leaf ers 18 mis ac mae bob amser yn cyrraedd yn gwenu. Mae'n gyfeillgar iawn, yn siriol, ac mae'n dod ymlaen yn dda â'i gyfoedion. Mae Iwan yn hapus i weithio mewn unrhyw ardal, gyda'r holl aelodau staff, fodd bynnag, mae'n hoff iawn o weithio yn y rhandir. Mae Iwan yn hoffi bod allan mewn unrhyw dywydd a chael ei ddwylo'n fudr! Tra'n mynychu Coleg Penybont, enillodd Iwan wobrau am ei fasgedi crog, a bydd yn mireinio'r sgiliau hyn yn B-Leaf yn y gwanwyn!

Yn ddiweddar, mae Iwan wedi ymuno â chwrs ardystiedig mewnol Agored Cymru ar Cyfarch Pobl. Mae'n gweithio ar sgiliau hanfodol o ddefnyddio iaith briodol gydag eraill ac mae'n dod yn ei flaen yn dda. Gofynnwyd i Iwan a oedd am helpu tîm ceidwaid Bryngarw gyda'u Llwybr Calan Gaeaf; neidiodd ar y cyfle i gymryd rhan, gan ychwanegu elfen ymarferol at ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth. Roedd Iwan yn wych am siarad â'r cwsmeriaid a dosbarthu'r losin i'r plant – cymorth mawr.

> "Rydw i mor falch o sut mae Iwan wedi dod yn ei flaen ers ymuno â B-Leaf. Mae wrth ei fodd yn mynd ac yn ei drin fel swydd, fel mae'n dweud wrthyf trwy'r amser. Mae pawb mor gefnogol a chyfeillgar. Mae hyder Iwan wedi tyfu'n aruthrol ers dechrau ac mae bob amser yn dweud wrthyf y pethau y mae wrth ei fodd yn eu gwneud tra yno. Mae B-Leaf wedi helpu annibyniaeth Iwan gyda gweithio'n galed ac mae ei hyder wedi datblygu llawer trwy gymysgu â phawb. Diolch i bawb mae'n golygu llawer."
>
> Alison, mam Iwan

JACK, PEN-Y-BONT AR OGWR

Ymunodd Jack â B-Leaf yn 2023 ac roedd yn awyddus iawn i ymuno â Wood-B. Cododd cyfle yn Wood-B eleni ac, ar ôl ychydig o sesiynau blasu, mae Jack bellach yn aelod gwerthfawr o'r tîm yno. Ers ymuno â Wood-B, mae hyder Jack wedi tyfu'n aruthrol, cymaint felly, dyfarnwyd y Dystysgrif Datblygiad Gorau iddo yn y noson ddathlu flynyddol ym mis Hydref.

Yn ddiweddar, mae Jack wedi dechrau mynychu'r cwrs Mathemateg sy'n cael ei gynnal yn B-Leaf, mewn partneriaeth â Choleg Penybont. Mae'n mwynhau'r cwrs sy'n canolbwyntio ar adnabod a defnyddio arian. Mae Jack yn hoffi mynd i'r siop gyda'i gyfoedion o Wood-B, felly roedden ni'n teimlo bod y cwrs hwn yn berthnasol iawn.

Mae Jack bob amser yn awyddus iawn i fod yn rhan o brosiectau a dros y misoedd diwethaf mae wedi helpu gyda Llwybr Calan Gaeaf Bryngarw ac wedi mynychu dangosiad ffilmiau It's My Shout yn Neuadd y Dref Maesteg. Mae Jack yn mwynhau bod yn egnïol, ac mae bob amser yn weithgar iawn, ac yn dynwared Elvis Presley ar bob cyfle sydd ar gael! Mae ganddo bersonoliaeth wych ac mae bob amser yn gwneud i bawb chwerthin.

> "Mae'r ddau, Wood-B a B-Leaf, yn amhrisiadwy o ran cynnig gweithgaredd allanol, cynyddu annibyniaeth a hyder a hefyd darparu allfa gymdeithasol i bobl ag anghenion ychwanegol a allai fel arall fyw bywydau ychydig yn unig."
>
> Anita, mam Jack

> "Mae Wood-B a B-Leaf ill dau yn wych ac yn gwneud i mi deimlo'n hapus pan fyddaf yn mynd yno."
>
> Jack

Crynodeb Maes Gwasanaeth:

PARC GWLEDIG BRYNGARW

Mwynhaodd bron i 36,000 o ymwelwyr dirwedd hardd a newidiol Parc Gwledig Bryngarw dros fisoedd yr hydref a'r gaeaf. Cymerodd ymwelwyr ran mewn ystod eang o weithgareddau dan arweiniad ceidwad, gan gynnwys helfeydd madarch a'n **Llwybrau Pwmpen Calan Gaeaf** poblogaidd. Mynychwyd gweithdai tymhorol, fel gwneud **torchau Nadolig**, yn dda, a phrofodd ein llwybrau Nadoligaidd newydd sbon i fod yn llwyddiant mawr, gyda 242 o deuluoedd yn cymryd rhan mewn helfa anrhegion Nadolig o amgylch y parc.

Parhaodd ein tîm ymroddedig o wirfoddolwyr i wneud cyfraniad amhrisiadwy at gadwraeth a chynnal a chadw Parc Gwledig Bryngarw. Y chwarter hwn, fe wnaethant gefnogi'r ceidwaid gyda gwaith hanfodol yn yr Ardd Japaneaidd, gan gynnwys clirio'r pyllau a'r systemau dŵr. Roedd eu hymdrechion yn hanfodol i gael gwared ar falurion ymledol, atal diffyg twf, a diogelu cynefinoedd dyfrol. Mae'r gwaith cynnal a chadw arbenigol hwn nid yn unig yn diogelu'r ecosystem sensitif ond hefyd yn cadw cymeriad hanesyddol ac apêl esthetig yr ardd, elfennau allweddol o hunaniaeth ddiwylliannol Bryngarw.

Diolch i ymrwymiad ein gwirfoddolwyr, mae'r lle poblogaidd hwn yn parhau i fod yn hygyrch ac yn ddiogel i'r gymuned. Mae eu gwaith yn chwarae rhan bwysig wrth wella bioamrywiaeth a chefnogi lles y nifer o ymwelwyr sy'n mwynhau'r parc trwy gydol y flwyddyn.

Mae ein hyfforddeion B Leaf wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r ceidwaid, gan wneud gwaith cynnal a chadw a gwelliannau pwysig ledled y parc. Y chwarter hwn, cefnogodd hyfforddeion welliannau hanfodol i'r llwybrau, gan helpu i gadw 113 erw o goetir helaeth a llwybrau'r parc yn ddiogel ac yn hygyrch i bob ymwelydd. Mae eu cyfraniad yn cefnogi'n blaenoriaethau llesiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ynghylch grymuso, cynhwysiant cymdeithasol a phrofiadau awyr agored o safon.

Trwy'r tasgau ymarferol hyn, mae hyfforddeion yn ennill sgiliau galwedigaethol gwerthfawr mewn tirlunio a chynnal a chadw tir.
Mae'r dysgu ymarferol hwn yn gwella eu hannibyniaeth, eu hyder a'u cyflogadwyedd. Mae'r cydweithrediad nid yn unig yn helpu i gynnal safonau arobryn Bryngarw, ond hefyd yn creu amgylchedd ystyrlon, a arweinir gan y gymuned lle mae hyfforddeion yn chwarae rhan weithredol wrth warchod treftadaeth leol a mannau naturiol.







1. LLWYBRAU PWMPEN CALAN GAEAF
2. HELFEYDD MADARCH
2. CREU TORCH NADOLIG
4. HYFFORDDEION B-LEAF YN GWEITHIO'N AGOS GYDA'R CEIDWAID I WNEUD GWAITH CYNNAL A CHADW A GWELLIANNAU PWYSIG LEDLED Y PARC

"Bore hyfryd yn hela madarch. Wedi mwynhau bwyta fy madarch draenog ac amethyst deceiver."

"Fe wnes i gerdded awr a hanner ddoe ac roedd yn wych. Mae'r coed acer yn lliwiau anhygoel nawr ac mae'r llwybrau newydd wedi'u hatgyweirio yn wych. Dydw i ddim wedi bod yno ers sbel felly roeddwn i'n hapus iawn i weld yr holl welliannau."

Dyfyniadau Ymwelwyr

ASTUDIAETH ACHOS

Trwy ei leoliad Bagloriaeth Cymru ym Mharc Gwledig Bryngarw, trosglwyddodd Kaya o fyfyriwr lleol i stiward cymunedol hyderus.

Dros bum sesiwn ddwys, dysgodd sut i ddefnyddio offer llaw yn ddiogel fel loppers, siswrn mawr a llif bwa, i adfer cynefinoedd hanfodol, gan gynnwys creu gwrych o ganghennau. Er gwaethaf y tywydd heriol, roedd ymroddiad Kaya wedi gwella bioamrywiaeth leol yn uniongyrchol. Nid bodloni'r gofyniad cwricwlwm yn unig oedd y bartneriaeth hon; mae'n meithrin ymdeimlad dwfn o berthyn a balchder dinesig, gan brofi bod buddsoddi yn ein mannau gwyrdd yn fuddsoddiad yn ein hieuenctid.

"Yn ystod fy amser ym Mryngarw roeddwn i'n teimlo croeso mawr yn syth. Fe wnaeth y tîm ei wneud i deimlo'n hynod werth chweil ac yn gyffredinol fe wnes i fwynhau fy mhrofiad. Fe wnaeth fy helpu i gyflawni fy nod yn y pen draw o helpu'r gymuned."

Kaya

Crynodeb Maes Gwasanaeth:

THEATRAU A CHANOLFANNAU CYMUNEDOL

Y chwarter hwn oedd y prysuraf o'r flwyddyn i Neuadd y Dref Maesteg, gyda nifer yr ymwelwyr a'r cynulleidfaoedd yn cynyddu dros 80%. Un o uchafbwyntiau allweddol oedd dychweliad pantomeim cyntaf y lleoliad ers cael ei adnewyddu, Rapunzel, gyda chefnogaeth Ensemble Iau o 12 o berfformwyr ifanc lleol a ddewiswyd trwy glyweliadau agored. Ar draws 14 perfformiad cyhoeddus, mynychodd mwy na 6,000 o bobl, gyda 1,885 o ddisgyblion ychwanegol o ysgolion lleol yn mwynhau ymweliadau theatr Nadoligaidd.

Fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn gynhwysol, gwnaethom gynnal ein hail daith Clwb Theatr Byddar Pen-y-bont ar Ogwr, gan groesawu 20 o fynychwyr i berfformiad BSL o **Rapunzel**. Fe wnaethom hefyd gynnig amrywiaeth o nodweddion hygyrchedd gan gynnwys sain-ddisgrifiad, teithiau cyffwrdd cyn y sioe a pherfformiad hamddenol, a alluogodd 35 aelod o Deuluoedd Arbennig Maesteg i fynychu, diolch i gyllid Seibiant Gofalwyr gan Gronfa Seibiannau Byr Cwm Taf.

Dychwelodd Cymdeithas Theatr Gerddorol Maesteg, sydd wastad yn boblogaidd, i Neuadd y Dref ym mis Hydref, gyda rhediad llwyddiannus pedair noson o **Rock of Ages**. Canmolodd cynulleidfaoedd y cynhyrchiad fel "noson wych," yn dathlu'r "dalent anhygoel yng Nghwm Llynfi". Yn y chwarter hwn hefyd cynhaliwyd cynyrchiadau Nadolig gan Ysgol Gynradd West Park ym Mhorthcawl ac Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, gan gryfhau cysylltiadau cymunedol â'r lleoliad ymhellach.

Parhaodd ein **Dydd Gwener Cerddoriaeth Am Ddim** rhwng Hydref a mis Rhagfyr, a diolch i gyllid Canolfan Glyd roeddem yn gallu cynnig cacen a diodydd poeth am ddim i'r rhai oedd yn bresennol, gan wella'r profiad croesawgar ymhellach. Hefyd yn cefnogi oedolion hŷn gyda chyfleoedd rhyngweithio cymdeithasol, mae'r **Dawnsfeydd Te** yn Awel y Môr yn parhau i fod yn ddigwyddiadau cymunedol gwerthfawr.

Daeth mentrau newydd yn Neuadd y Gweithwyr Blaengarw ag ymgysylltiad newydd. Mae **Noson Gemau** sydd newydd ei lansio wedi dod yn boblogaidd yn gyflym gyda thrigolion lleol, tra bod **Alawon Canol Wythnos** wedi gweld mwy o gyfranogiad, gyda mwy na 70 o ddisgyblion lleol yn ymuno â mynychwyr oedolion rheolaidd ar gyfer perfformiad acapella Nadolig gan y SOW Trio. Mae Ysgol Gynradd Blaengarw bellach wedi ymrwymo i ddefnyddio'r digwyddiadau misol hyn fel cyfle i ehangu amlygiad disgyblion i brofiadau cerddoriaeth fyw amrywiol.

1.

2.

1. RAPUNZEL

2. CLWB THEATR BYDDAR PEN-Y-BONT AR OGWR YN Y PANTO

"Newydd fod i weld y panto yn Neuadd y Dref Maesteg. Os nad ydych wedi cael eich tocynnau ar gyfer Rapunzel eto, mynnwch nhw nawr! Mae'r sioe yn anhygoel; y canu, y gwisgoedd, y rhyngweithio â'r plant, mae'n wych!"

"Prynhawn gwych allan. Panto cyntaf plentyn 3 oed. Roedd hi wrth ei bodd. Diolch am y lluniau ar ôl, mae plant wrth eu bodd ac yn gofyn am y flwyddyn nesaf yn barod."

Rapunzel

"Wedi mwynhau'r sioe ASD gyfeillgar y prynhawn yma. Diolch am gynnig perfformiad hygyrch!"

Rapunzel, sioe ASD gyfeillgar

"Mor hapus bod gennym Neuadd y Dref ar agor eto ac am yr holl ymdrechion i ddarparu pob math o adloniant."

"Di-fai. Model ar gyfer yr hyn y mae pob cymuned o'r maint hwn yn ei haeddu."

Ynglŷn â Neuadd y Dref Maesteg

HONEY, PORTHCAWL

AELOD O ENSEMBLE IAU RAPUNZEL

"Rwy'n mwynhau bod ar y llwyfan ac wrth fy modd bod yn rhan o gast. Rwyf wedi perfformio mewn sioeau yn Neuadd y Dref Maesteg o'r blaen ac wedi meddwl y byddai panto yn gyfle hwyliog i berfformio a gweithio gyda phobl newydd.

"Roeddwn i wrth fy modd! Roedd y cast yn gwneud i mi deimlo'n gartrefol ac yn gefnogol iawn. Roedden nhw'n rhoi awgrymiadau i ni ac roedden nhw'n gyfeillgar iawn. Roeddwn i'n arbennig o hoff o'r sylwadau hwyliog a wnaethon nhw pan oeddem yn aros yn yr esgyll.

"Roedd fy ffrindiau yn gyffrous iawn i'm gweld ar y llwyfan ac fe wnaethant anfon sylwadau hyfryd i mi am faint wnaethant fwynhau'r sioe. Roedd fy athrawon yn yr ysgol yn gyffrous iawn drosta i hefyd ac yn cynnwys sut roeddwn i mewn panto yng nghylchlythyr yr ysgol a wnaeth i mi deimlo'n falch iawn o'm cyflawniad. Roedd fy nheulu mor falch ohonof, roedd digon o ddagrau ac fe ddaethon nhw i'm gweld sawl gwaith. Roedden nhw'n ei fwynhau cymaint nes i mi ddysgu'r dawnsfeydd iddyn nhw!

"Rwyf wedi dysgu cymaint o sgiliau o berfformio mewn panto. Dysgais symudiadau dawns newydd a ffyrdd o berfformio ond dysgais hefyd gymryd cyfarwyddyd gan ystod o bobl, o'r coreograffydd i'r cynhyrchydd i'r cyfarwyddwr cerdd. Roedd yn addysg ac yn hynod bleserus. Byddwn wrth fy modd yn ei wneud eto a byddwn yn bendant yn clyweld ar gyfer panto arall.

"Rwyf wedi perfformio yn Neuadd y Dref Maesteg o'r blaen gyda Theatr Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr ac yn mwynhau'n fawr yno. Mae'r cyfleusterau'n dda iawn ac mae'r staff yno bob amser yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar. Roedd fy

hebryngwr mor hyfryd ac yn edrych ar ein hôl ni. Fe wnaethon ni fwynhau ei chwmni a chael cymaint o hwyl gyda hi."

Crynodeb Maes Gwasanaeth:

LLES CREADIGOL

MAE LLES CREADIGOL Y TU ALLAN I'N CYTUNDEB RHEOLI GYDA CHYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR. MAE'N CAEL EI ARIANNU TRWY YSTOD O GRANTIAU A FFYNONELLAU ERAILL AC MAE'N YCHWANEGU GWERTH I GYMUNEDAU LEDLED YR ARDAL.

Gyda chyllid gan Gronfa Seibiannau Byr Gofalwyr Cwm Taf Morgannwg, fe wnaethom barhau i ddarparu cyfleoedd seibiant i ofalwyr y chwarter hwn. Mwynhaodd chwe gofalwr noson o gerddoriaeth fyw yn Neuadd y Dref Maesteg gyda **Lipstick on Your Collar**, tra ymunodd 35 aelod o Faesteg Deuluoedd Arbennig Maesteg â ni ar gyfer perfformiad hamddenol o **Rapunzel**, yn ystod y rhediad o'r pantomeim. Ym Mharc Gwledig Bryngarw, creodd 72 o deuluoedd y mae gan eu plant anghenion ac anableddau ychwanegol atgofion i'w trysori yn ein trydydd digwyddiad blynyddol o **Siôn Corn Hamddenol**. Wedi'i gynnal dros dair noson pan fydd y parc ar gau i'r cyhoedd, mae'r digwyddiad yn darparu amgylchedd pwrpasol, tawel a gwbl hygyrch wedi'i deilwra i anghenion y teuluoedd.

Ym mis Tachwedd, fe wnaethom groesawu 115 o ddisgyblion o ysgolion cynradd lleol i Neuadd y Dref Maesteg ar gyfer perfformiad theatr byrfyfyr am ddim gan y **Rubbish Shakespeare Company**. Dyma ail ymweliad y cwmni ag Awen, ac roedd disgyblion ac athrawon wrth eu bodd gyda'r profiad o adrodd straeon doniol, creadigol a chyfranogol iawn. Dangosodd adborth fod pob disgybl yn teimlo'n fwy cysylltiedig â'u cymuned ar ôl ymweld â Neuadd y Dref a chymryd rhan mewn profiad celfyddydol o ansawdd uchel wedi'i gynllunio'n benodol i gefnogi eu dysgu a'u dychymyg.

Cyflwynodd ein Artistiaid Cyswllt sawl gweithdy'r chwarter hwn. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau gyda grŵp Gofalwyr Blodau Gwyllt Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer merched sy'n awtistig; teuluoedd sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Waliau Anweledig yn CEF Y Parc; ac o fewn sawl cartref gofal lleol. Roedd y sesiynau hyn yn darparu cyfleoedd ar gyfer cysylltiad cymdeithasol a meithrin hyder.

RUBBISH SHAKESPEARE COMPANY: THE STORY FORGE

"Ar ôl colli llawer o ddigwyddiadau oherwydd problemau iechyd, roeddwn mor falch y gallwn wneud y digwyddiad hwn. Diolch yn fawr am ei drefnu – y Mr a Mrs Corn gorau i mi ei weld erioed!"

"Diolch yn fawr am gynnal profiad mor hudolus, roedden ni wrth ein bodd â phob eiliad o'r gweithgaredd crefftio, y corachod a chwrdd â Mr a Mrs Claus."

Siôn Corn Hamddenol, Rhieni

"Roedd y sioe hon yn gwneud i mi deimlo'n gyffrous ac yn hapus. Roedd yn un o brofiadau gorau fy mywyd!"

Story Forge, Disgybl

"Roedd Story Forge yn brofiad pleserus a doniol. Dangosodd sut y gellir adrodd straeon ac ysgrifennu gydag ychydig o wrthrychau yn unig. Yr uchafbwynt i mi oedd y perfformwyr afieithus a'r ffordd roedden nhw'n rhyngweithio â'r plant, a gweld y mwynhad ar wynebau'r plant a'u brwdfrydedd am y sioe. Dyma'r tro cyntaf i mi weld sioe yn Neuadd y Dref Maesteg ac rwy'n credu ei bod yn adnodd gwych i'r gymuned."

Story Forge, Athro

ANA-MARIA, PEN-Y-BONT AR OGWR

"Dyma'r trydydd tro i mi fynychu Siôn Corn Hamddenol ym Mharc Gwledig Bryngarw. Mae'r digwyddiad yn gwella pob blwyddyn. Mae fy mhlant wrth eu boddau â'r profiad, a dyma'r unig le lle gallan nhw i gyd ei fwynhau gyda'i gilydd. Mae Siôn Corn mor siaradus a charedig, mae ei gorachod yn hyfryd ac i gyd yn ddoniol iawn. Maen nhw mor groesawgar, yn ein diddanu ag yn ein cysylltu ag ysbryd y Nadolig."

"Rydyn ni wrth ein bodd â'r lleoliad, mae'n hygyrch iawn yn enwedig i blentyn sy'n defnyddio cadair olwyn bŵer ac mae'r broses gyfan o archebu hyd at fynychu yn gwneud i ni deimlo bod yna bobl yn y byd hwn sy'n poeni sut rydych chi'n teimlo ac yn gweithio i wella eich bywyd, hyd yn oed os mai dim ond am gwpl o oriau.

"Mae'r digwyddiad hwn wedi ein helpu i greu atgofion hapus pwysig gyda'n gilydd. Rydyn ni'n teimlo'n hamddenol ar ôl amser y Nadolig, ac rydyn ni'n teimlo'n ddiolchgar iawn am y pethau rydyn ni'n eu derbyn. Mae hwn yn ddigwyddiad mor arbennig, bob blwyddyn rydym yn gobeithio y byddwch chi'n parhau â'r digwyddiad eto yn y dyfodol."

Crynodeb Maes Gwasanaeth:

CYNNYDD STRATEGOL

EIN STRATEGAETH 2025-30

Mae ein gweledigaeth yn creu cymunedau diwylliannol fywiog lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn.

Amgylchedd iach lle bydd cenedlaethau'r dyfodol yn elwa o blaned lanach, mwy cydnerth sy'n cael ei deall yn well.	Lleoedd bywiog i fyw a gweithio ynddynt gydag economïau lleol sy'n tyfu, ymdeimlad balch o hunaniaeth a lle mae gan bawb gyfle i gyflawni eu potensial.	Pawb â'r cyfle i deimlo'n ymgysylltiedig a chael ymdeimlad o bwrpas, gyda mynediad at sgiliau, cefnogaeth a chymorth pan fydd ei angen arnynt.	Cymunedau iach lle mae pawb yn cael y cyfle i fyw bywydau iach.	Sefydliad cynaliadwy ac ystyrir Awen yn gyflogwr cyfrifol, teg, dibynadwy ac yn bartner o ddewis.

Mae'r diweddariad Ch3 uchod yn dangos yn glir bod Awen yn gwneud cynnydd sylweddol tuag at ei nodau strategol 2025-30 trwy:

- wella bywydau a lles;
- lleihau unigedd a chefnogi pobl sy'n agored i niwed;
- galluogi dysgu a chreadigrwydd;
- diogelu a datblygu mannau diwylliannol a naturiol gwerthfawr;
- darparu profiadau cynhwysol, hygyrch i bawb;
- cryfhau gwydnwch cymunedol trwy weithio mewn partneriaeth; a
- cefnogi cyflogadwyedd a thwf sgiliau.

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
Swyddfeydd y Stablau, Tŷ Bryngarw,
Brynmenyn, Pen-y-Bont, CF32 8UU

Awen Cultural Trust
Stable Offices, Bryngarw House,
Brynmenyn, Bridgend, CF32 8UU

+44 (0) 1656 754825
enquiries@awen-wales.com
www.awen-wales.com

Rhif elusen gofrestredig / Registered charity number: 1166908
Rhif cofrestru TAW / VAT registration number: 224 3341 44
Rhif gofrestredig / Company number: 09610991

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen wedi'i chofrestru yng Nghymru fel cwmni cyfyngedig drwy warant.
Awen Cultural Trust is registered in Wales as a company limited by guarantee.